# POLISI DERBYNIADAU ADDYSG UWCH 2023

| | |
|---|---|
| **Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb:** | **02/08/2023** |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg:** | **06/09/2023** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **CLT** |
| **Haen:** | **3** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Addysg Uwch** |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | **06/09/2023** |
| **Dyddiad Adolygu:** | **Awst 2025** |
| **Cyhoeddwyd ar:** | **Gwefan**<br>**Mewnrwyd**<br>**Porth y Dysgwyr** |

Ar gael mewn ffont mawr ac mewn fformatau eraill ar gais.
Mae’r polisi hwn ar gael yn Saesneg.



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

# POLISI DERBYNIADAU ADDYSG UWCH 2023

## 1. DATGANIAD

*Dylai'r rhan hon fod yn baragraff rhagweithiol, byr (1/2 brawddeg). Dylai amcan cyffredinol y polisi hwn fod yn glir gan egluro ein safbwynt fel coleg.*

**1.1** Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Addysg Uwch, y mae Coleg Gwent wedi cael ei ddilysu i'w darparu gan y sefydliadau dyfarnu Addysg Uwch canlynol:

- Edexcel/Pearson
- Prifysgol Caerwrangon, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth

**1.2** Rydym yn ceisio darparu arweiniad a gwybodaeth gywir a diduedd i bob ymgeisydd Addysg Uwch ynghylch y cyrsiau sydd ar gael ar draws y coleg ac yn defnyddio gweithdrefn deg ac effeithlon ar gyfer prosesu eich cais.

**1.3** Bydd myfyrwyr cymwys o'r DU neu'r UE, boed yn llawn amser neu ran amser, yn gallu gwneud cais am gymorth ariannol gan y llywodraeth i helpu gyda ffioedd dysgu. Bydd myfyrwyr cymwys llawn amser o'r DU hefyd yn gallu gwneud cais am gymorth gyda chostau byw. Mae dau fath o gymorth ariannol ar gael:

- Benthyciadau sydd angen eu had-dalu
- Grantiau nad oes angen eu had-dalu

**I gael mwy o wybodaeth am gymorth ariannol, ewch i**
**https://www.gov.uk/studentfinance**

**1.4** Gall unigolion sy'n gwneud cais i astudio yn Coleg Gwent ddewis a hoffent gael gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Gellir newid yr iaith a ddewisir ar unrhyw adeg yn ystod y broses, yn ôl cais yr ymgeisydd. Mae ethos a diwylliant Cymraeg/dwyieithog yn cael ei hyrwyddo'n weithredol yn y coleg:

- Gall ymgeiswyr sydd eisiau trafod eu cais yn Gymraeg wneud hynny gydag aelod o'r tîm Derbyniadau sy'n siarad Cymraeg
- Bydd ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno eu hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl, neu o ysgol gyfun Gymraeg, yn cael dewis cynnal eu cyfweliad yn Gymraeg
- Mae'r cyrsiau/modiwlau y gellir eu haddysgu yn Gymraeg/yn ddwyieithog wedi'u nodi yn y prosbectws



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

- Wrth gyflwyno cais, bydd pob dysgwr yn dod yn ymwybodol o'i hawl i gyflwyno gwaith yn Gymraeg

Mae'r holl bolisïau cyflogaeth wedi'u datblygu yn unol â gweledigaeth a chenhadaeth Coleg Gwent. Nodwyd y polisïau a'r gweithdrefnau yn glir i gefnogi pob gweithiwr i newid bywydau drwy ddysgu.

### SAFONAU'R GYMRAEG

Cofiwch y gallwch, pe dymunech, wneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gydol unrhyw agwedd ar y broses hon. Os bydd angen, darperir gwasanaeth cyfieithu.

## 2. DIBEN A CHWMPAS

*Dylai'r rhan hwn fod yn gymharol fyr (3/4 brawddeg). Dylem ganolbwyntio ar sut fath o ddiwylliant yr ydym yn ceisio ei greu, yn hytrach na'r hyn yr ydym yn ceisio ei atal. Cyfeiriwch at God Ymddygiad y sefydliad os yw'n berthnasol. Os oes cyfraith neu egwyddor gyffredinol, cyfeiriwch yn benodol ato yn fan hyn.*

**2.1** Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gymryd camau rhesymol i weithredu neu addasu'r polisi hwn, gan ystyried amgylchiadau pob dysgwr unigol. Efallai y bydd y camau rhesymol yn cynnwys, er enghraifft, dogfennau mewn fformat arall a threfniadau arbennig ar gyfer cyfarfodydd, ac yn y blaen.

**2.2** Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau bod darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol yn cael cydraddoldeb o ran mynediad. Mae'r Coleg yn monitro ymrestriadau er mwyn gwerthuso'r ymrwymiad hwn, ac os oes angen, bydd yn gwneud newidiadau priodol i'r polisi hwn.

**2.3** Mae'r Polisi Derbyniadau Addysg Uwch yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, 1986 (yn cynnwys addasiadau 2005)
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel yr addaswyd gan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol Diwygio 2000
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005
- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Oedran 2006 a
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

## *3.* DIFFINIADAU

### 3.2.1 Euogfarnau Troseddol


This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

Ni ofynnir i unrhyw ymgeisydd ddatgan unrhyw euogfarn droseddol wedi'i disbyddu, oni bai y ceisir mynediad i alwedigaethau wedi'u heithrio dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr Ifanc (1974). Bydd ymgeisydd gydag euogfarnau heb eu disbyddu angen cwblhau Ffurflen Ddatgelu cyn cyfweliad eu cwrs. Gweler y polisi ar wahân: Derbyniadau: Datgelu Euogfarnau heb eu Disbyddu. Sylwer, os gofynnir i ymgeisydd ddatgelu trosedd ac mae'n methu â gwneud hynny, fe'i hystyrir yn fater difrifol fydd yn debygol o arwain at wrthod ei gais, neu os bydd yn astudio yn y coleg, bydd ei gofrestriad a'i ymrestriad yn y coleg yn cael ei dynnu'n ôl.

Bydd y Coleg yn gwneud cynigion i ymgeisydd, dim ond os pennir nad yw ei euogfarn ef/hi yn peri risg i staff a myfyrwyr. Gall methu i ddatgelu gwybodaeth am euogfarn, neu achos llys sydd ar y gweill, neu ddarparu gwybodaeth anwir neu anghywir yn ymwneud ag euogfarn neu achos llys sydd ar y gweill, achosi i'ch cynnig am le, neu eich ymrestriad ar y cwrs gael ei ddiddymu ar unrhyw amser.

### 3.2.2 Ymgeiswyr sy'n treulio dedfryd yn y carchar

Rhaid cyfeirio unrhyw gais a dderbynnir gan unigolyn sy'n treulio dedfryd yn y carchar at y Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr) er mwyn cael cadarnhad gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (ymgeiswyr Addysg Uwch) neu asiantaeth allanol perthnasol. Heb y cadarnhad hwn, ni fydd y Coleg yn derbyn ymgeiswyr sy'n treulio dedfryd yn y carchar.

### 3.2.3 Ymgeiswyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledd, neu anghenion cymorth (Yn cynnwys rhai meddygol ac ieithyddol).

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod unigolion gydag anableddau, yn cynnwys y rheiny gydag anawsterau dysgu, yn cael eu trin yn gyfartal. Gwneir pob addasiad rhesymol i sicrhau nad yw dysgwyr ac unigolion eraill gydag anableddau dan anfantais. Ymdrinnir â'r holl ddatgeliadau ynghylch anabledd yn sensitif, ac fe'u defnyddir dim ond ar gyfer buddion posibl y dysgwr. Mae ymgeiswyr yn gallu datgelu eu hanableddau a'u hanghenion dysgu ar y ffurflen ymgeisio. Gweler y polisi ar wahân: Derbyniadau: Anableddau a/neu Anawsterau Dysgu.

Mae Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn darparu cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr anabl. Gall myfyrwyr dderbyn Lwfansau Myfyrwyr Anabl os oes ganddo/ganddi anabledd, cyflwr iechyd hir dymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol megis dyslecsia. Gall myfyrwyr gael cymorth gyda chostau:

- offer arbenigol
- cynorthwywyr anfeddygol
- teithio ychwanegol oherwydd anabledd
- costau eraill ar gyfer astudio sy'n gysylltiedig ag anabledd

I gael rhagor o fanylion, dylai myfyrwyr gyfeirio at https://www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas .



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

Bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod trefniadau cymorth gofynnol ar waith. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar brydlondeb y myfyriwr i wneud cais, adnabod ei anabledd yn glir yn ystod y cyfnod ymgeisio a darparu asesiad manwl yn unol â Lwfansau Myfyrwyr Anabl.

Dylai myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o du allan i'r DU gofio nad yw myfyrwyr rhyngwladol yn gymwys ar gyfer Lwfansau Myfyrwyr Anabl y DU. Cynghorir myfyrwyr i gysylltu â Llywodraeth eu gwlad breswyl i gael gwybodaeth am unrhyw gyllid a all fod ar gael iddynt fel myfyriwr anabl. Dylai myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni cyfnewid geisio cyllid gan eu sefydliad 'cartref'.

### 3.2.4 Ymgeisydd rhyngwladol

Mae croeso i ymgeiswyr tramor yn Coleg Gwent. Derbynnir ceisiadau gan ddysgwyr rhyngwladol yn ganolog, ac yna bydd y Swyddog Rhyngwladol yn ymdrin â nhw. Bydd ceisiadau'n cael eu harchwilio yn unol â'r meini prawf a osodwyd gan Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig (UKBA). Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni lefel ofynnol o Saesneg ysgrifenedig a llafar cyn dechrau eu rhaglen. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'u cymwysterau ESOL, neu gwblhau asesiad Iaith Saesneg i sefydlu a yw safon eu Saesneg yn briodol ar gyfer y cwrs.

### 3.2.5 Ceisiadau Twyllodrus

Mae gan bob ymgeisydd gyfrifoldeb i sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar eu ffurflen ymgeisio yn gywir a chyfredol. Gwneir penderfyniad ynghylch cynnig lle i astudio yn seiliedig ar y wybodaeth o fewn y cais, ac os canfyddir bod ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir neu wallus fel rhan o'i gais ef/hi; bydd y Coleg yn archwilio hyn ymhellach ac yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig am le yn ôl. Mae'r Coleg hefyd yn cadw'r hawl i atgyfeirio achosion am archwiliad pellach (lle bo'n briodol), er enghraifft atgyfeirio ceisiadau UCAS at Uned Ddilysu UCAS.

Mae'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â chymwysterau'r ymgeisydd ac sydd wedi'i nodi yn y ffurflen ymgeisio yn ddarostyngedig i ddilysiad.

### 3.2.6 Ceisiadau gan ddysgwyr sydd wedi'u diarddel

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod derbyn ymgeisydd sydd wedi cael ei ddiarddel o'r sefydliad addysgiadol hwn, neu unrhyw un arall, yn y gorffennol. Gwahoddir ymgeiswyr sydd wedi cael eu diarddel yn y gorffennol i fod yn bresennol mewn Panel Derbyniadau, cyn cael eu hail-dderbyn i'r Coleg. (Cyn gwneud unrhyw benderfyniad, gwneir ymdrech rhesymol i gael geirdaon gan sefydliad/au addysgiadol blaenorol. Os darperir geirdaon, efallai y cânt eu hystyried wrth wneud penderfyniad i gynnig lle.

### 3.2.7 Myfyrwyr sydd wedi bod yn destun Gweithdrefn Ddisgyblu'r Coleg yn y gorffennol



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

Mae Coleg Gwent yn cadw'r hawl i wrthod derbyn ymgeisydd sydd wedi bod yn destun Gweithdrefn Ddisgyblu'r Coleg yn y gorffennol, ac sydd ddim wedi dilyn yr argymhellion a wnaed yn dilyn canlyniad unrhyw gamau disgyblu o'r fath.  Efallai y gofynnir i ymgeiswyr fod yn bresennol mewn Panel Derbyniadau

### 3.2.8 Dysgwyr sydd angen Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer lleoliad gwaith

Bydd y Coleg yn mynnu bod cofrestriad a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu gwneud ar ymgeiswyr cyn dechrau cyrsiau sy'n arwain at yrfaoedd lle mae hyn yn ofyniad, neu lle mae hyn yn ofyniad gan ddarparwyr profiad gwaith.  Efallai y bydd rhai euogfarnau'n golygu y gwrthodir ymrestriad.  Gweler y polisi ar wahân:  Derbyniadau: Polisi Datgelu DBS Dysgwr  Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ofyn am eirdaon gan unrhyw ddarpar ddysgwr.

### 3.2.9 Ceisiadau gan ddysgwyr sydd â dyled gyda Coleg Gwent

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i beidio â derbyn ymgeisydd sydd â dyledion gyda'r Coleg. Bydd y Coleg yn sicrhau bod ffioedd yn cael eu talu lle bynnag fo hyn yn berthnasol.

## 4. EGWYDDORION

### 4.1 UCAS/CEISIADAU UNIONGYRCHOL I COLEG GWENT

Anogir myfyrwyr i wneud cais ar-lein www.coleggwent.ac.uk/cy . Mae Coleg Gwent hefyd yn goruchwylio'r weithdrefn a'r terfyn amser ar gyfer ymdrin â cheisiadau, fel y'u gosodwyd gan Wasanaeth Derbyn Colegau a Phrifysgolion (UCAS) a gan Sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid cyswllt.  Dylai myfyrwyr tramor a myfyrwyr o Ewrop hefyd ymgeisio ar-lein drwy UCAS yn yr un ffordd â myfyrwyr sy'n byw yn y Deyrnas Unedig https://www.ucas.com/students

### 4.2 DYDDIADAU CAU

Mae'n rhaid cyflwyno bob cais i astudio cyrsiau sy'n dechrau fis Medi, sy'n nodi bod y ceisiadau angen eu prosesu drwy system UCAS, erbyn y dyddiad cau ym mis Ionawr yn yr un flwyddyn.  Gall ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau nad ydynt angen cyflwyno cais drwy UCAS, wneud cais hyd at y dyddiad dechrau.  Efallai y bydd Coleg Gwent yn ystyried ceisiadau hwyr os bydd lleoedd yn dal ar gael.  Mae Coleg Gwent yn gweithio'n agos gyda Sefydliadau Addysg Uwch sy'n bartneriaid cyswllt ynghylch niferoedd targed, ac yn adolygu'r niferoedd hyn yn rheolaidd.

Dim ond un cais all ymgeisydd ei gyflwyno.  Os bydd ymgeisydd yn cyflwyno mwy nag un cais, bydd y Tîm Derbyniadau'n cysylltu ag ef er mwyn pennu'r cwrs yr hoffai ei ddewis.



This copy may be out of date if printed.    https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

## 4.3 PROSESU CEISIADAU

### 4.3.1 Cyfathrebu gyda Myfyrwyr

Cyfrifoldeb UCAS yw darparu cydnabyddiaeth o geisiadau a rhannu'r canlyniad gydag ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais drwy UCAS ei hun. Ar gyfer ymgeiswyr UCAS ac ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais yn uniongyrchol i'r coleg, mae Coleg Gwent hefyd yn cydnabod ei fod wedi derbyn ceisiadau unigol ac yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r ymgeisydd yn ystod y broses ymgeisio.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn cadarnhad ar gyfer ei gais ar ffurf e-bost, os bodlonir y meini prawf, a bydd yr ymgeisydd hefyd yn derbyn cynnig amodol. Os nad yw'r meini prawf yn cael eu bodloni, gofynnir i'r ymgeisydd fod yn bresennol mewn cyfweliad anffurfiol gydag aelod o dîm y cwrs i drafod y cais. Bydd ymgeiswyr yn gadael y Cyfweliad gyda syniad clir o'r canlyniad, e.e. cynnig ar gyfer y cwrs a ddewiswyd neu atgyfeiriad ar gyfer Cyngor a Chyfarwyddyd pellach.

## 4.4 CYNIGION

Mae'r telerau ac amodau a amlinellir yn y contract hwn ar y cyd â chynnwys eich llythyr cynnig, yn ffurfio sail ein contract â chi. Bydd eich contract yn dod yn rhwymol pan fyddwch yn derbyn eich cynnig ar gyfer y cwrs. Os ydych wedi gwneud cais yn uniongyrchol i'r Coleg, y pwynt derbyn yw'r dyddiad y mae eich cadarnhad yn cael ei dderbyn yn y swyddfa Dderbyniadau. Gwneir cynnig, boed yn amodol neu ddiamod, yn ddidwyll, gan ystyried y wybodaeth fel y'i rhoddwyd gan yr ymgeisydd a/neu ganolwr ar yr adeg y gwnaed y cais. Pe byddai'n dod i'r amlwg eich bod wedi cam-gyfleu neu ddal unrhyw wybodaeth faterol yn ôl, wedi gwneud datganiadau anwir yn ystod y broses o wneud cais a'r broses ddewis, neu eich bod yn methu darparu tystiolaeth ddogfennol lawn o'ch cymwysterau pan fyddwch yn dechrau eich cwrs, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ddiddymu eich cynnig.

### 4.4.1 Cynnig Amodol

Mae cynnig amodol yn golygu y bydd Coleg Gwent yn cynnig lle i ymgeisydd os bodlonir amodau penodol. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd cynnig yn un amodol yn seiliedig ar ofynion anacademaidd e.e. gwiriad cofnodion troseddol drwy'r DBS sy'n cael ei ystyried yn foddhaol. Fel arfer, mae'n rhaid i ymgeiswyr fodloni'r amodau a osodwyd gan y Coleg erbyn 31 Awst y flwyddyn ymgeisio, oni bai y nodwyd yn wahanol yng ngofynion y cwrs neu ofynion corff proffesiynol.

### 4.4.2 Cynnig Diamod

Mae Cynnig Diamod yn golygu bod yr ymgeisydd wedi cael ei dderbyn ar y rhaglen astudio a ddewiswyd, ac wedi bodloni'r gofynion mynediad academaidd ac anacademaidd.



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

### 4.4.3 Cais Aflwyddiannus

Gall ymgeiswyr fod yn aflwyddiannus am sawl rheswm, a dylent gofio y gall rhai rhaglenni yn y coleg dderbyn mwy o geisiadau na'r nifer o leoedd sydd ar gael. Bydd pob ymgeisydd aflwyddiannus yn cael gwybod y rheswm dros y penderfyniad hwn. Efallai y bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn dymuno gofyn am adborth ynghylch canlyniad eu cais. Rhaid gwneud bob cais am adborth yn ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr) a'i lofnodi gan yr ymgeisydd.

### 4.4.4 Cais Wedi'i Dynnu'n Ôl

Gall yr ymgeisydd neu'r coleg dynnu cais yn ôl. Gall yr holl gyrsiau fod yn destun newid. Mae'r coleg yn cadw'r hawl i dynnu cais yn ôl hyd nes y mae wedi cael ei dderbyn gan ymgeisydd. Mae Coleg Gwent yn cadw'r hawl i dynnu unrhyw gwrs yn ôl os pennir nad yw'n ymarferol ei gynnal mwyach. Os yw cwrs wedi cael ei dynnu'n ôl, lle bo'n bosibl, bydd cwrs a/neu Gampws addas arall yn cael ei gynnig.

*Dylai'r rhan hon fod yn rhan hirach, yn manylu ar bob pwynt o fewn isadrannau er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd gyda llythrennau.*

*Dylai'r rhan hon ddefnyddio iaith glir sy'n cyfeirio ein disgwyliadau;*

- *CYNNWYS GORFODOL - unrhyw beth sy'n god ACAS neu'n gyfraith*
- *DYLAI GYNNWYS - unrhyw bolisiau'r coleg*
- *GALL GYNNWYS - unrhyw arferion da, safonau uwch yr hoffem gynnwys, ni ddylent fod yn rhy fanwl neu fel arall bydd yn rhan o orchwyl 'arweiniad'.*

*Peidiwch â defnyddio acronymau oni bai fod rhywbeth yn hynod ailadroddus, dychmygwch fod angen i weithiwr ei ddarllen ar ddiwrnod cyntaf ei gyflogaeth yn y coleg.*

*Y rhan hon yw'r rhan fwyaf penodol i'r Coleg, felly os oes gennych enghreifftiau cyffredin, gallwch gyfeirio atynt yma. Neu os oes offer/eithriadau o'r hyn sy'n arfer gyffredin mewn sefydliadau nad ydynt yn berthnasol/bosib yn y coleg, cyfeiriwch atynt yma, gall hyd yn oed fod drwy'r adran neu swydd.*

## 5. PROSESAU/GWEITHDREFNAU ar gyfer Ymrestru

**5.1** Er mwyn ymrestru'n swyddogol, mae'n rhaid i ymgeisydd gwblhau'r broses ymrestru ar-lein neu lofnodi 'ffurflen ymrestru'r' Coleg, cael aelod o staff i'w llofnodi ac ymrwymo i dalu'r ffi briodol, yn unol â'r polisi ffioedd. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd ymrestru yn y coleg ac mewn Prifysgol bartner.



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

**5.2** Os yw gwybodaeth yn dod i'r amlwg ar ôl i chi ymrestru, y mae'r Coleg yn penderfynu (dan unrhyw un o bolisïau a gweithdrefnau'r Coleg) y byddai'n eich gwneud yn anaddas neu'n eich atal rhag gallu parhau ar y cwrs, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i dynnu eich ymrestriad fel myfyriwr yn ei ôl.

## 6. FFIOEDD

**6.1** Mae Coleg Gwent yn adolygu ac yn cyhoeddi ei ffioedd yn flynyddol.

**6.2** Mae pob myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod taliad ar gael ar gyfer ffioedd dysgu a chofrestru, ac unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag astudio a chostau byw drwy eich rhaglen astudio. Efallai y bydd y Coleg yn cytuno i wneud cais i anfonebu trydydd parti ar gyfer unrhyw ffi neu ddebyd (er enghraifft, Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Awdurdod Lleol, Cyngor Ariannu, Cyflogwr neu Noddwr arall). Nid yw hyn yn effeithio ar gyfrifoldeb cyffredinol y myfyriwr i dalu'r ffi neu ddebyd. Mae'r Tîm Gwasanaethau Dysgwr ar gael i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r rheiny a ddymuna gael cymorth o ran asesu eu cymhwysedd am gymorth ariannol a gwneud ceisiadau cyllid myfyrwyr. Gellir cysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Dysgwr yn nerbynfa pob campws.

**6.3** Mae'r Coleg yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghylch dosbarthu myfyrwyr fel rhai "Cartref" neu "Dramor" at ddibenion ffioedd.

**6.4** Er mwyn cydymffurfio gyda rheoliadau Fisâu a Mewnfudo'r DU o ran derbyn Myfyrwyr Tramor, mae'r Brifysgol yn gofyn i Fyfyrwyr Rhyngwladol dalu blaendal na ellir ei ad-dalu tuag at eu ffioedd dysgu cyn y gallant dderbyn y dogfennau hanfodol i'w galluogi nhw i wneud cais am fisa myfyriwr er mwyn astudio yn y DU.

## 7. CASGLU DATA A CHYFRINACHEDD

**7.1** Mae'r holl ddata yn cael ei gadw a'i brosesu yn unol â gofynion Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE (sef "GDPR") a Deddf Diogelu Data 2018. Fel rheol, mae ceisiadau'n aros yn gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, staff priodol y Coleg, a rhwng Swyddfa Gartref Fisâu a Mewnfudo'r DU yn achos ymgeiswyr Rhyngwladol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai y bydd data hefyd yn cael ei rannu'n allanol, os bydd rhaglenni wedi datblygu ar y cyd â sefydliadau trydydd parti, a lle mae staff o du allan i'r coleg yn chwarae rôl o fewn proses dethol derbyniadau. Noder ei bod hi'n ofynnol i'r Coleg rannu gwybodaeth gyda'r canlynol:

- Asiantaethau cyllid ac ystadegol, megis yr OfS, HESA a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr
- Cyrff dyfarnu, h.y. USW, UW, AU, Met Caerdydd, Pearson ac UCAS
- Heddlu Gwent (pan ddatgelir euogfarn)
- Y Brifysgol ddyfarnu sy'n gysylltiedig â'r cwrs rydych yn ei astudio


This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

**7.2** Bydd Coleg Gwent yn:

- Gofyn am y lleiafswm data sydd ei angen
- Sicrhau bod yr holl ddata personol yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol, ac yn cael ei ddefnyddio dim ond ar gyfer y rheswm a nodwyd
- Cynnal a chadw data yn unol â gofynion statudol

**7.3** Bydd pawb sy'n ymrestru yn cael Datganiad Diogelu Data wrth ymrestru, a bydd y datganiad hwn yn darparu gwybodaeth am y defnydd o ddata personol a sut y caiff ei rannu. Gellir dod o hyd i wybodaeth lawn am y ffordd mae'r Coleg yn casglu ac yn defnyddio data personol darparu fyfyrwyr, yn ogystal â'r amserlen cadw cofnodion, yma:

https://www.coleggwent.ac.uk/cy/privacy-policy

## 8. CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

**8.1** Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau bod darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol yn cael defnyddio'n gwasanaethau'n gyfartal. Bydd y Coleg yn monitro ymrestriadau er mwyn gwerthuso'r ymrwymiad hwn, ac os fydd angen, yn gwneud newidiadau priodol i'r polisi hwn. Bydd y Polisi Derbyniadau hefyd yn cael ei adolygu yng ngoleuni unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n ymdrin â chyfleoedd Cyfartal.

## 9. CYFRIFOLDEB Y RHEOLWR Panel Derbyniadau

**9.1** Pwrpas Panel Derbyniadau yw ystyried unrhyw gais all beri pryder. Nid yw'r rhain yn gyfyngedig i'r canlynol, ond gallant gynnwys:

- Mae ymgeisydd sy'n gwneud cais ar gyfer cwrs, lle mae lleoliad gwaith neu weithgaredd allanol arall yn ofynnol, yn peri pryder yn seiliedig ar ei amgylchiadau meddygol a/neu ymddygiadol, a allai effeithio ar ganlyniad llwyddiannus y gweithgaredd allanol hwnnw.

- Gall derbyn ymgeisydd roi dysgwyr a/neu staff mewn perygl, e.e. lle mae gan yr ymgeisydd hanes o drais neu unrhyw ffurf arall o gam-drin eraill.

- Mae dysgwr yn datgan euogfarn droseddol heb ei ddisbyddu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y cwrs mae eisiau ymrestru arno, e.e. efallai y caiff euogfarn o natur rywiol effaith ar ymgeisydd sydd eisiau ymrestru ar gwrs gofal, lle byddai'n rhaid iddo/iddi weithio gyda phlant neu oedolion bregus. Wrth ddelio ag ymgeisydd sydd ag euogfarn droseddol heb ei disbyddu, dylid cyfeirio at y ***Polisi Datganiad Euogfarnau heb eu Disbyddu***, sy'n amlinellu gweithdrefn ar wahân ar gyfer sefydlu Polisi Derbyniadau i'r hyn a nodir isod.



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

**9.2** Fel arfer bydd aelodaeth ar gyfer y Panel Derbyniadau'n cynnwys yr aelodau canlynol o staff, ond gall hyn amrywio yn dibynnu ar natur y pryder:

- Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr Campws (Cadeirydd)
- Y Pennaeth Ysgol priodol
- Y Tiwtor Cwrs priodol

**9.3** Wrth ymgynnull, dylai'r Panel ystyried unrhyw ddatganiadau tyst a/neu ddogfennaeth maen nhw'n teimlo all ychwanegu gwerth i'w hystyriaethau. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd angen ystyried y materion canlynol, un ai drwy'r ddogfennaeth a ddarparwyd neu drwy gyfweliad gyda'r dysgwr:

- Difrifoldeb yr hyn sy'n peri pryder/y drosedd a'i pherthnasedd i'r Coleg a /neu'r cwrs
- Yr amser ers i'r hyn sy'n peri pryder/y drosedd ddigwydd
- Gwybodaeth berthnasol ynghylch yr amgylchiadau a arweiniodd at yr hyn sy'n peri pryder/y drosedd yn cael ei chyflawni, e.e. dylanwad anawsterau domestig neu ariannol
- A oedd yn drosedd untro, neu'n rhan o hanes o droseddu
- A yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid ers i'r hyn sy'n peri pryder ddigwydd/drosedd gael ei chyflawni, sy'n ei gwneud hi'n llai tebygol i'r ymgeisydd droseddu eto
- Y wlad lle gyflawnwyd y drosedd
- A yw'r drosedd wedi cael ei gwahaniaethu gan y Senedd
- Y tosturi a ddangosir gan y dysgwr a'i benderfynoldeb i newid

Dylid cadw unrhyw Wybodaeth sy'n codi o gyfarfod y Panel, e.e. asesiad risg, yn gyfrinachol a'i thrafod dim ond os oes rheswm penodol dros wneud hynny.

**9.4** Ar ôl i'r Panel ddod i benderfyniad, dylai hysbysu'r ymgeisydd cyn pen tri diwrnod gwaith. Os gwneir penderfyniad i wrthod ymrestriad ar y cwrs, dylid rhannu'r rheswm dros hynny gyda'r ymgeisydd, a lle bynnag fo'n bosibl, dylid sôn wrth yr ymgeisydd am ddarparwyr eraill sy'n cynnig yr un cwrs, neu gwrs cyffelyb.

Ni ddylai'r rhan hon orgyffwrdd â holl gamau'r broses, ond efallai y bydd rhywfaint o orgyffwrdd.

Pan fydd AD yn hyfforddi'r rheolwr, ni ddylid cynnwys hyn - yr elfennau hyn fydd angen eu trafod fwyaf fel tîm er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn briodol ac yn bosib.

Lle mae gofyn am ffurflen, dylid cynnwys hyperddolen. Os yw'n cael ei e-bostio, mae'n rhaid cyfeirio at fewnflwch AD.

Lle mae gofyn am broses NESSA, dylid cynnwys y ddolen 'sut i'.

## 10. CWYNION AC APELIADAU



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

**10.1** Rydym yn ceisio ystyried pob ymgeisydd yn deg ac yn effeithiol yn unol â'n gweithdrefnau. Fodd bynnag, os nad yw ymgeisydd yn hapus gyda chanlyniad neu'r ffordd yr ymdriniwyd y gais, gall ef/hi godi'r pryderon gyda'r Rheolwr Derbyniadau. Os, ar ôl hyn, mae'r ymgeisydd yn dal yn bryderus, gall ef/hi ddefnyddio'r Polisi Cwynion ac Apeliadau sydd ar gael ar-lein:

https://www.coleggwent.ac.uk/cy/our-courses/higher-education/he-terms-conditions-and-policies



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx